


Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Tu Allan i'r Bocs

## Dyfodol S4C

---

Awst 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r dogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**
Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Tu Allan i'r Bocs

## Dyfodol S4C

Awst 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Sefydlwyd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Bethan Jenkins AC (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tydfil a Rhymni



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

---

# Cynnwys


Rhagair ..... 5

Argymhellion ..... 7

01. Cefndir ..... 10

02. Cylch gwaith statudol ..... 13

03. Cyllid ..... 15

04. Gweledded gwasanaethau S4C ..... 22

05. Llywodraethu ac atebolrwydd ..... 25

06. Yr effaith ddiwylliannol ac economaidd ..... 27

07. Y gydberthynas gyda'r BBC a chydweithio ehangach ..... 31

Atodiad A – Sesiynau tystiolaeth lafar ..... 33

Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig ..... 34

# Rhagair

Cymraeg yw'r iaith frodorol hynaf ym Mhrydain ac yn ôl bob sôn dyma'r iaith fyw hynaf yn Ewrop. Dyma gonglfaen diwylliant a threftadaeth Cymru ac mae'n un o nodweddion mwyaf amlwg Cymru fel cenedl.

Er bod y Gymraeg yn iaith hynafol mae'n un sy'n byw ac yn ffynnu yn y byd modern. Roedd sefydlu S4C ym 1982 yn rhoi cyfle i Gymru ddatblygu a ffynnu ac i siaradwyr Cymraeg dderbyn y gwasanaeth teledu modern roeddent wedi bod yn gofyn amdano.  Ers ei sefydlu mae S4C wedi bod yn llwyddiannus fel conglfaen o gefnogaeth i'r iaith Gymraeg ac yn rhan allweddol o fynegiant diwylliannol a chelfyddydol ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r gwaith o ehangu nifer y sianeli teledu, yr oedd S4C yn rhan ohono ym 1982, wedi cyflymu'n fawr ac nid sianelau teledu yn darlledu yw'r unig lwyfan ar gyfer y defnydd o adloniant, newyddion a chyfryngau eraill mwyach. Mae angen i S4C allu parhau i ddarparu gwasanaeth modern gan ddefnyddio'r llwyfannau newydd a'r llwyfannau sy'n dod i'r amlwg sydd ar gael nawr ac yn y dyfodol. Dyna pam mae angen erbyn hyn am adolygiad trylwyr i sicrhau y gall S4C weithredu'n effeithiol yn y byd aml-lwyfan newydd hwn.

Mae'n siomedig y cynhaliwyd adolygiad diwethaf S4C mor bell yn ôl â 2004, ac nad oedd yr adolygiad arfaethedig gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dechrau ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn.  Mae'n bwysig ei fod yn dechrau cyn bo hir, ac er y bydd yn drylwyr, yn cyflawni ei waith gyda brys.  Cred y Pwyllgor fod angen cynnal adolygiadau yn y dyfodol yn fwy rheolaidd ac yn amlach.

Mae S4C wedi wynebu toriadau sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.   Yn 2011-12, cafodd S4C £101 miliwn gan Lywodraeth y DU. Byddai angen i'r dyraniad cyllid hwnnw fod yn tua £111 miliwn bellach pe bai wedi cadw i fyny â chwyddiant. Yn lle hynny, mae cyllid S4C wedi cael ei dorri i ddim ond £81.3 miliwn yn 2016-17. Er bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnig cyfle i edrych ar yr ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar S4C ar hyn o bryd, gan gynnwys yr hyn a olygir gan gyllid teg i'r sianel, credwn fod y toriadau hyn wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur.

Fodd bynnag, er y byddai'n demtasiwn galw am adfer cyllid S4C i'r lefel hanesyddol blaenorol, yr angen dybryd go iawn yw cael asesiad modern sy'n edrych ymlaen i'r gwasanaethau y dylid disgwyl i S4C eu darparu ar gyfer y dyfodol. Unwaith y cytunir ar y lefelau gwasanaeth hyn, byddem yn disgwyl i S4C gael digon o gyllid er mwyn caniatáu iddi ddarparu'r gwasanaethau hynny.  Mae angen i unrhyw drefniant ariannu newydd gynnwys fformiwla ar gyfer diogelu S4C rhag pwysau chwyddiant.

Mae angen gwneud mwy hefyd i wella'r defnydd masnachol o raglenni S4C gan S4C ei hun a chan gynhyrchwyr annibynnol.  Fodd bynnag, mae angen i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyried pa newidiadau strwythurol y gall fod eu hangen i hwyluso hyn.

Mae dadl ehangach hefyd ynghylch a ddylai'r cyfrifoldeb ffurfiol dros S4C gael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol a dylai'r cwestiwn hwn fod yn rhan o adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Beth bynnag, rhaid i'r adolygiad ystyried diddordeb cyfreithlon y cyhoedd yng Nghymru, a'i chynrychiolwyr etholedig, yn S4C ac mae angen ystyried sut y gall sianelau ffurfiol o ran atebolrwydd i'r Cynulliad gael eu cryfhau.

Rydym hefyd yn galw am ddiogelu annibyniaeth S4C wrth iddi barhau i gydweithio gyda'r BBC ac i ehangu cydweithredu i gyrff eraill yn y sector cyhoeddus sy'n darparu cyfryngau yn y Gymraeg. Credwn hefyd y dylai S4C yn y dyfodol gael ei rheoleiddio gan Ofcom o dan drefniant trwydded gwasanaeth gydag Awdurdod presennol S4C yn cael ei ddisodli gan fwrdd unedol tebyg i'r BBC.

Yn olaf, ni all y gwaith o wneud y Gymraeg yn weladwy ar draws yr holl ddarlledu gwasanaethau cyhoeddus gael ei adael i S4C yn unig.  Ym marn y Pwyllgor, dylai'r holl ddarlledwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gymryd camau syml i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy.

Mae S4C wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers ei sefydlu.  Mae ganddi gefnogaeth eang yng Nghymru ac mae wedi cynnal a gwella'r ffordd y defnyddir y Gymraeg mewn byd modern ac yn y cyfryngau modern. Fodd bynnag, mae bellach angen cynnal asesiad trylwyr a blaengar o'i rôl, ei chylch gwaith a'i chyllid i'w helpu i sicrhau y gall barhau gyda'i llwyddiannau yn hyderus i'r dyfodol.

# Argymhellion


**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod cylch gwaith S4C yn cael ei ddiwygio i ddileu'r cyfyngiadau cyfredol o ran daearyddiaeth a theledu yn unig. ........................................ Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith S4C gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad penodol i hybu a meithrin y Gymraeg. ........................ Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y gofynion y disgwylir i S4C eu bodloni yn cael eu gwerthuso'n llawn fel rhan o adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn cael eu nodi mewn trwydded gwasanaeth a ddefnyddir i asesu gofynion cyllido yn y dyfodol, gan gynnwys cyllid ar gyfer llwyfannau digidol newydd a chynnwys ar y llwyfannau hynny. ........................................ Tudalen 18

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r man cychwyn ar gyfer adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o gyllid S4C fod yn gydnabyddiaeth o faint y toriadau y mae S4C wedi'u dioddef ers 2011-12 gyda chyllid yn y dyfodol yn seiliedig ar ddiffiniad clir o ofynion y gwasanaeth y disgwylir i S4C ei ddarparu a phennu cyllid ar lefel sy'n galluogi S4C i fodloni'r gofynion hyn yn llwyddiannus. ........................................ Tudalen 19

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell, pa bynnag drefniadau cyllido y cytunir arnynt ar gyfer S4C yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y dylai adolygiadau ac asesiadau annibynnol rheolaidd o anghenion cyllido S4C fod yn nodwedd o unrhyw setliad newydd. ...... Tudalen 20

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod mecanwaith ar gyfer sicrhau bod incwm S4C yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant yn cael ei gynnwys ym mha bynnag setliad cyllid y cytunir arno yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. ........................................ Tudalen 21

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth i gysylltu trefniadau ariannu ac adolygu S4C i rai'r BBC. ........................................ Tudalen 21

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon barhau i ddarparu rhan sylweddol o arian cyhoeddus S4C, tra bod S4C yn parhau heb ei datganoli. ............................ Tudalen 21

**Argymhelliad 9.** **Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried sut y gall atebolrwydd ffurfiol S4C i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei gryfhau. .................... Tudalen 21**

**Argymhelliad 10.** **Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn sicrhau bod amlygrwydd S4C ar ganllawiau EPG yn cael ei wella i sicrhau cydraddoldeb rhwng S4C a Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a bod angen gwneud gwaith rheoleiddio pellach ar setiau teledu smart i roi amlygrwydd dyledus i'r holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar ganllawiau EPG ac apiau sydd wedi'u cyn-lwytho. ........................................................................................................................ Tudalen 24**

**Argymhelliad 11.** **Rydym yn argymell y dylai trefniadau llywodraethu S4C yn y dyfodol amddiffyn safle S4C fel darlledwr a sefydliad annibynnol. ......... Tudalen 26**

**Argymhelliad 12.** **Rydym yn argymell y dylai S4C gael ei rheoleiddio gan Ofcom o dan drefniant trwydded gwasanaeth. ........................................................ Tudalen 26**

**Argymhelliad 13.** **Rydym yn argymell y dylai Awdurdod presennol S4C gael ei ddisodli gan fwrdd unedol, a ddiogelir gan statud neu Siarter, sy'n debyg i fodel presennol y BBC. ........................................................................................ Tudalen 26**

**Argymhelliad 14.** **Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen er mwyn hwyluso cydweithio gwell rhwng S4C a chynhyrchwyr annibynnol i wella'r defnydd masnachol o raglenni Cymraeg drwy nodi a marchnata cyfleoedd masnachol a thrwy rannu risgiau a manteision. ........................................................................................................................ Tudalen 28**

**Argymhelliad 15.** **Rydym yn argymell y dylai S4C flaenoriaethu gweithio ar y cyd gyda chynhyrchwyr annibynnol i rannu risgiau a manteision a gwella'r defnydd masnachol o raglenni. ............................................................................... Tudalen 28**

**Argymhelliad 16.** **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai weithio gydag S4C i gomisiynu gwaith neu gynnwys sydd â'r nod o ategu ei hamcanion ar gyfer cefnogi'r Gymraeg. ........................................................ Tudalen 30**

**Argymhelliad 17.** **Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith S4C gynnwys gofyniad penodol i weithio ar y cyd gyda'r BBC a sefydliadau eraill yng Nghymru**

**sy'n darparu neu'n cefnogi cyfryngau Cymraeg ar draws amrywiaeth o lwyfannau. .......... Tudalen 32**

**Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i bob darlledwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ddarparu rhan o'u cynnwys yn y Gymraeg. .......... Tudalen 32**

# 01. Cefndir

## Adolygiad Arfaethedig Llywodraeth y DU o S4C

**1.** Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu cynnal adolygiad cynhwysfawr o S4C yn 2017. Wrth gyhoeddi'r adolygiad, nodwyd[1]:

> "S4C in Wales has a specific remit around Welsh language programming, with the majority of their funding generated from the TV Licence Fee. In recognition of scale and minority audience issues, S4C also receives direct funding from Government.
>
> In order for S4C to continue to provide a first-class service and have a sustainable future, the Government also intends to carry out a comprehensive review in 2017. This will look at the remit, governance and funding of S4C to ensure the broadcaster can continue to meet the needs of Welsh speaking audiences in the future and invest in high-quality programming."

**2.** Wrth ymateb i ddadl Tŷ'r Cyffredin[2] ar S4C ar 18 Ionawr 2017, dywedodd y Gweinidog Digidol a Chyfathrebu (Matt Hancock AS) fel a ganlyn:

> "We will be announcing the review shortly. We will certainly take into account the comments that my hon. Friend and others have made as to what the review should consider. I can commit that the reviewer will have a thorough understanding of Wales and an interest in the Welsh language. Of course, the review needs to look into how S4C can succeed in the short term and long term. The licence fee now contributes the vast majority of funding—more than £74 million. The direct funding from DCMS [DDCMS] is currently just over £6 million, which, as the hon. Member for Clwyd South (Susan Elan Jones) said, is a relatively small element of the overall funding. We are aware of the commitments given by a predecessor on timing, and the Secretary of State is currently considering that issue."

**3.** Fodd bynnag, ar adeg paratoi'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw gyhoeddiad pellach wedi'i wneud yn rhoi rhagor o fanylion am pryd y byddai'r adolygiad yn dechrau, beth fyddai ei gylch gwaith na phwy fyddai'n cynnal yr adolygiad.

Ein barn ni

Mae'n siomedig nad yw adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon[3] wedi dechrau eto neu'n wir nad oes fawr o dystiolaeth bod trefniadau ar ei gyfer yn mynd rhagddynt mewn unrhyw ffordd. Nodwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn nad yw cylch gwaith S4C wedi cael

[1] https://www.gov.uk/government/news/uk-government-protects-funding-for-welsh-broadcaster-s4c.cy
[2] https://hansard.parliament.uk/Commons/2017-01-18/debates/D4FA1DDD-C4FD-499B-8EAD-2514BED76127/S4C
[3] Cafodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei hailenwi yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 3 Gorffennaf. Er mwyn osgoi dryswch, defnyddir Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon drwy gydol yr adroddiad hwn, hyd yn oed wrth gyfeirio at yr Adran cyn iddi newid ei henw. Yr eithriad yw pan gaiff dyfyniadau uniongyrchol eu defnyddio pan fydd yr hen enw yn cael ei ddefnyddio.

ei adolygu na'i ddiweddaru'n sylfaenol ers 2004. Ymddengys fod hyn yn dangos bod perthynas yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gydag S4C wedi bod yn un o esgeulustod diniwed am gyfnod rhy hir.

## Ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor

**4.** Yn adroddiad y Pwyllgor 'Y Darlun Mawr' - safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar ddarlledu yng Nghymru[4], mynegwyd ein pryder dwfn ynghylch effaith ddifrifol y toriadau i gyllideb S4C ers 2010, sef cyfanswm sy'n o leiaf 36 y cant mewn termau real.

**5.** Er bod yr adolygiad arfaethedig yn cynnig cyfle i edrych ar yr ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar S4C ar hyn o bryd, gan gynnwys yr hyn a olygir gan gyllid teg i'r sianel, rydym wedi gwneud yn glir y ffaith y credwn fod y toriadau hyn wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur. Rydym yn argymell na ddylai fod unrhyw doriadau pellach hyd nes bod yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau a bod pawb sydd â rhan yn nyfodol S4C wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei gasgliadau.

**6.** Wrth ymateb i Adroddiad 'Y Darlun Mawr' dywedodd y Gwir Anrhydeddus Karen Bradley AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon[5]:

> "The Government is committed to the future of Welsh language broadcasting and of S4C. That is why we made a commitment to carry out an independent review of the broadcaster during 2017, covering S4C's remit, funding and governance, and it is why we announced earlier this year that we will be providing an additional £350,000 of capital funding to S4C for 2017/18. This funding will enable S4C to carry out upgrades to its technical and IT equipment, which are necessary for S4C to remain up-to-date in an increasingly competitive and fast-changing broadcasting market. As you may know, the Government is also investing in S4C's long-term future with a £10 million loan to enable the relocation of S4C's headquarters to Carmarthen and co-location of technical facilities with the BBC in Cardiff."

## Ymchwiliad y Pwyllgor

**7.** Rydym wedi nodi ein bwriad yn Y Darlun Mawr i chwarae rhan mor lawn â phosibl yn yr adolygiad drwy gynnal ein hymchwiliad ein hunain i S4C a gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU eu hystyried fel rhan ohono.

**8.** Cafodd yr ymchwiliad ei ddechrau ym mis Chwefror 2017 a chytunwyd i ystyried y materion a ganlyn fel rhan o'r ymchwiliad:

- Sut beth yw cyllid digonol ar gyfer S4C. Er enghraifft, pwy ddylai ddarparu'r cyllid, a sut y dylid ei gyfrifo - a ddylid cael fformiwla ar ei gyfer? Sut y dylid cefnogi hyn drwy refeniw wedi'i gasglu gan S4C ei hun?
- Y cylch gwaith statudol a ddylai fod gan S4C. A yw ei chylch gwaith presennol yn addas ar gyfer darlledwr cyfoes? Os nad yw, sut y dylid ei newid? Sut y dylai'r cylch gorchwyl adlewyrchu swyddogaeth ddigidol darlledwr modern?

---

[4] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10916/cr-ld10916-w.pdf
[5] http://senedd.assembly.wales/documents/s63065/Paper%204.pdf

– Y strwythurau y dylai S4C eu rhoi ar waith ar gyfer ei llywodraethu a'i hatebolrwydd. Er enghraifft, a ddylid datganoli cyfrifoldeb dros S4C i Gymru?

– Y gydberthynas a ddylai fodoli rhwng S4C â'r BBC.

– Gwelededd S4C: sy'n cynnwys materion fel amlygrwydd S4C ar y ddewislen deledu electronig ac ar setiau teledu clyfar.

## Datblygiadau diweddar

**9.** Ers i'r Pwyllgor gyfarfod am y tro cyntaf gydag S4C ar ddechrau'r ymchwiliad hwn, mae'r sianel wedi cyhoeddi ei gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf, S4C: *Gwthio'r Ffiniau (Gwasanaeth Cyhoeddus Cymraeg ar bob Llwyfan)*[6]. Mae S4C yn disgrifio'r ddogfen hon fel "elfen allweddol o'n mewnbwn i'r adolygiad annibynnol". *Mae Gwthio'r Ffiniau* yn amlinellu'r ffordd y mae S4C yn credu y dylai ei chylch gwaith newid i'w galluogi i ddod yn ddarparwr cynnwys digidol modern yn y Gymraeg.

Ein barn ni

Rydym yn croesawu gweledigaeth S4C ar gyfer dyfodol ei gwasanaethau fel y nodir yn *Gwthio'r Ffiniau*. Rydym yn cynnig ein sylwadau ar sut y dylai hyn gael ei roi ar waith yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

[6] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html

# 02. Cylch gwaith statudol

**10.** Mae S4C wedi dadlau bod y gynulleidfa sy'n siarad Cymraeg, yn yr un modd ag unrhyw gynulleidfa Darlledwr Gwasanaethau Cyhoeddus, yn cynnwys nifer o wahanol grwpiau oedran a diddordeb. Mewn amgylchedd aml-sianel sy'n gwylio cynnwys ar-lein fwyfwy, mae dal gafael ar gyfran o'r gynulleidfa wedi bod yn her sylweddol i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus. Tra bod darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi gallu mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy dargedu cynulleidfaoedd penodol drwy sianelau wedi'u segmentu a deunydd ar-lein wedi'i dargedu, nid yw'r opsiynau hyn wedi bod ar gael i S4C o ystyried ei maint a'i chyllideb yn lleihau, yn ogystal â chylch gwaith sydd wedi dyddio ac mae'n arwain at rwystrau o ran darparu cynnwys yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd digidol.

**11.** Clywodd y Pwyllgor gan nifer o dystion y dylai cylch gwaith statudol S4C gael ei ddiweddaru, a hynny mewn dwy brif ffordd:

- Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyfeirio at y ffaith bod S4C yn darparu gwasanaethau darlledu ar y teledu. Nid yw hyn yn ddigon eang i gynnwys holl weithgarwch darparwr cynnwys cyfryngau a darlledwr modern.
- Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyfeirio at wasanaethau teledu S4C fel rhai sydd ar gael yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Nid yw hyn yn cyd-fynd â rôl darlledwr modern: mae 45 y cant o wylwyr wythnosol S4C y tu allan i Gymru.

**12.** Mae nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Huw Marshall, yr ymgynghorydd ym maes y cyfryngau digidol o'r Sefydliad Materion Cymreig a chwmni cynhyrchu Tinopolis, wedi cwestiynau a yw darlledwr teledu - fel S4C - y model cywir i ddarparu cynnwys cyfryngau Cymraeg mewn byd aml-sianel, aml-lwyfan.

**13.** Er enghraifft, dywedodd Huw Marshall[7]:

> "Mae'n rhaid gofyn y cwestiwn sylfaenol a'i model "sianel deledu" yw'r ffordd orau ymlaen i S4C ac os taw na yw'r ateb, yn rhannol neu yn ei chyfanrwydd, beth ddylid datblygu yn ei le? Mae ymchwil a data yn amlygu fod arferion "Millennials", sef trwch siaradwyr Cymraeg heddiw, yn symud i ffwrdd o ddarlledu traddodiadol at lwyfannau a chynnwys newydd."

**14.** Dywedodd Ron Jones o Tinopolis[8]:

> "… And if we look at that in the new environment, then we need almost to be agnostic about platforms. We need to look at the content first—what's of interest? And then we need to have institutions that are able to manage, over time, the movement between one platform and another. So, we don't really think in terms of traditional television alone."

**15.** Mae S4C wedi dweud bod "angen uwchraddio cylch gorchwyl S4C, gan symud oddi wrth y cyfyngiadau daearyddol a theledu yn unig i alluogi darpariaeth Gymraeg aml-lwyfan ledled y Deyrnas

---

[7] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251
[8] http://senedd.assembly.wales/documents/s61937/30%20March%202017.pdf

Unedig a thu hwnt”[9] yn flaenoriaeth y mae angen mynd i’r afael â hi. Mae’n galw am i’r sianel gael “ei hailddiffinio’n ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus”, yn hytrach na Darlledwr Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae’n nodi, gan nad yw wedi bod yn destun adolygiad annibynnol ers 2004, fod y sianel wedi methu â segmentu, fel y mae darlledwyr eraill wedi’i wneud, er mwyn ymateb i natur dameidiog cynulleidfaoedd cyfoes.

### Ein barn ni

Nid yw cylch gwaith S4C wedi cael ei ddiweddaru ers 2004. Er bod Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus eraill wedi gallu segmentu eu rhaglennu a thargedu cynulleidfaoedd yn ddemograffig ac ar-lein, er mwyn cynnal cynulleidfaoedd mae hyn wedi bod yn fwy anodd i S4C. Mae hyn yn ymwneud â’i maint cymharol a’i chyllidebau’n lleihau, ond mae hefyd yn cael ei rhwystro gan gylch gwaith hen ffasiwn sy’n cyfeirio’n syml at ddarlledu ar y teledu ac yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau’r sianel fod ‘ar gael yn gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru’. Er bod S4C wedi cymryd rhai camau tuag at ddarparu cynnwys ar-lein, megis y fenter ‘Pump’, mae gwaith pellach yn y maes hwn wedi’i gyfyngu gan y gofynion hyn, yn ogystal â’r amgylchedd cyllido cyffredinol.

Yn amlwg nid yw’r cylch gwaith presennol yn addas at y diben yn amgylchedd y cyfryngau ar hyn o bryd ac mae angen ei wneud yn gyfredol cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod cylch gwaith S4C yn cael ei ddiwygio i ddileu’r cyfyngiadau cyfredol o ran daearyddiaeth a theledu yn unig.

Mae bron yn afraid dweud bod S4C wedi’i sefydlu ac yn parhau i fodoli oherwydd sefyllfa unigryw y Gymraeg yng Nghymru ac yn wir yn y DU. Mae’n gyfrwng i gynnal yr iaith a sicrhau ei bod yn parhau i dyfu a ffynnu. Rhaid i’w phrif rôl fod yn parhau i ddarparu gwasanaeth yn ei hiaith ei hun i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac yn wir ar draws y DU a’r byd. Fodd bynnag, mae ganddi hefyd rôl a chenhadaeth ehangach, sef hyrwyddo’r Gymraeg fel iaith fywiog a modern sy’n cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Credwn fod angen adlewyrchu’r rôl hon yn briodol yng nghylch gwaith diwygiedig S4C hefyd.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith S4C gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad penodol i hybu a meithrin y Gymraeg.

---

[9] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html

# 03. Cyllid

## Cefndir

**16.** Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyllid S4C wedi'u hamlinellu yn Adran 31 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'n rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i'r Awdurdod y mae o'r farn ei fod yn ddigonol i dalu cost yr Awdurdod bob blwyddyn ar gyfer:

(a) darparu gwasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod (o fewn ystyr Adran 207 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003); a,

(b) threfnu i ddarlledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny.

Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau).

Rhaid i'r cyfryw gyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus a'i ddefnyddio at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

**17.** Mae cyllid cyhoeddus S4C bellach yn dod yn bennaf o Ffi'r Drwydded gyda grant-mewn-cymorth hefyd a ddarperir gan Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU. Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refeniw masnachol drwy weithgareddau, gan gynnwys gwerthiannau hysbysebu a nawdd rhaglenni.

**18.** Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU yn 2010, roedd S4C yn wynebu toriadau i'w chyllid a newidiadau i sut yr oedd y cyllid hwnnw'n cael ei ddarparu. Er bod y rhan fwyaf o refeniw S4C yn arfer cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'i fod yn gysylltiedig â chwyddiant, ers mis Ebrill 2013 mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwnnw wedi dod drwy Ymddiriedolaeth y BBC o ffi'r drwydded, gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i ddarparu grant bach.

**19.** Yn 2011-12, o dan y trefniadau blaenorol, cafodd S4C £101 miliwn gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cafodd y cyllid hwnnw ei leihau i tua £7 miliwn y flwyddyn o 2013-14 ymlaen, gyda'r BBC yn darparu £76.3 miliwn. Bu gostyngiad arall, i £74.5 miliwn, yn elfen y BBC yn 2016-17. Mae Siarter newydd y BBC yn nodi y byddai'r cyllid hwn o ffi'r drwydded yn aros yn gyson mewn termau arian parod tan 2020-21 (gostyngiad mewn termau real o tua 10 y cant erbyn 2020-21).

## Effaith y gostyngiadau mewn cyllid

**20.** Yn gyffredinol, mae'r newidiadau wedi golygu bod S4C wedi wynebu toriadau i'w chyllideb sy'n o leiaf 36 y cant mewn termau real ers 2010. Mae cyfraniad presennol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau ar yr un lefel â 2015-16 (£6.8 miliwn) yn 2016-17, gan ostwng i £6.1 miliwn yn y flwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hefyd wedi cyhoeddi y bydd yn darparu cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £350,000 i S4C ar gyfer 2017/18 i uwchraddio ei hoffer technegol a TG. Mae hefyd yn darparu benthyciad gwerth £10 miliwn er mwyn adleoli pencadlys S4C i Gaerfyrddin a chyd-leoli cyfleusterau technegol y BBC yng Nghaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu cyfrannu £3 miliwn o arian cyfalaf i gefnogi Yr Egin: y

canolbwynt diwydiannau creadigol newydd yng Nghaerfyrddin a fydd yn gartref i bencadlys newydd S4C.

**21.** Mae rhai pryderon wedi'u mynegi ynghylch y trefniadau cyllido ar gyfer yr adeilad newydd yng Nghaerfyrddin y bydd S4C yn symud iddo yn 2018, fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer Yr Egin, a arweinir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Eglurodd S4C ei bod yn bwriadu talu £3 miliwn mewn rhent ymlaen llaw ar gyfer Yr Egin, a fydd yn sicrhau rhent statig am 25 mlynedd. Nododd Mr I Jones fod y canllawiau a gafodd gan yr awdurdod yn nodi y dylai symud pencadlys y sianel fod yn niwtral o ran cost ac ar hyn o bryd, dros y cyfnod, arbedir miliynau. Er i Mr I Jones nodi na fyddai'n effeithiol o ran cost i unrhyw ddarlledwr sy'n buddsoddi mewn seilwaith i wneud hynny am lai nag 20 mlynedd, mae gan y Pwyllgor rai pryderon y bydd y penderfyniad hwn yn cyfyngu ar ryddid y sianel yn y cyfnod dilynol o 25 mlynedd. Mae S4C wedi nodi bod bron i 30 o sefydliadau eraill wedi mynegi eu bod yn awyddus i symud gydag S4C i Gaerfyrddin, a'i bod yn gobeithio gweithredu fel catalydd ar gyfer creu clwstwr bywiog ac arloesol yng ngorllewin Cymru. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at ddatrys unrhyw broblemau ac yn gobeithio y bydd y pencadlys newydd yn cynnig y manteision y gobeithiwyd amdanynt.

**22.** Mae S4C wedi croesawu'r "elfen o sefydlogrwydd" y mae setliad ffi'r drwydded yn ei ddarparu. Fodd bynnag, mae wedi nodi'r pwysau yn sgil y ffaith bod hwn yn setliad arian gwastad: sy'n golygu gostyngiad mewn termau real mewn cyllid dros y cyfnod hwn. Fel y mae'r sianel yn egluro, mae'r setliad arian parod sefydlog yn golygu y rhagwelir gostyngiad pellach mewn termau real o'i gyllideb ar gyfer cynnwys o £8.7 miliwn erbyn 2021-22.

**23.** Fodd bynnag, mewn tystiolaeth gan S4C ar gyfer adroddiad Y Darlun Mawr, roedd yn amlwg bod effaith y toriadau ers 2010 wedi bod yn sylweddol. Rhoddodd y sianel orau i ddarparu ei gwasanaeth HD yn 2012 - ond cafodd ei hail-lansio ym mis Mehefin 2016; mae ei buddsoddiad mewn rhaglenni plant wedi lleihau; mae diffyg mewn dramâu gwreiddiol wedi bod am sawl mis o'r flwyddyn; ac mae'n fwy anodd i'r sianel gystadlu am hawliau chwaraeon poblogaidd.

**24.** Mae'r sianel wedi llwyddo i gynnal yr oriau a ddarlledir ar y sgrin er ei bod wedi colli tua £65 miliwn o doriadau yn y gyllideb. Fodd bynnag, fel y dywedodd Prif Weithredwr S4C wrthym o'r blaen:

> "In 1982, when S4C launched, we had a target of 20 per cent repeats on screen—so, repeated programmes. We're now at 57 per cent, which, in my view, is far too high."

**25.** Mae nifer o dystion wedi nodi effaith negyddol y toriadau parhaus ar gyllideb S4C ers 2010. Er enghraifft:

> **Rondo – tystiolaeth ysgrifenedig**
> "Mae angen cyllid ychwanegol ar S4C i'w pharatoi ar gyfer y genhedlaeth Netflix ac Amazon Prime. Mae angen yr adnoddau arni i greu argraff ddigonol ar y llwyfannau hyn ac i wneud camau go iawn i gomisiynu cynnwys newydd ar gyfer llwyfannau aflinol (non-linear) y tu hwnt i'w gwasanaeth craidd."

> **Bectu – tystiolaeth ysgrifenedig**
> "BECTU is extremely concerned that the half-hourly cost of producing an S4C production has dropped to £10,800, this compares with an average hourly spend of £48,884 in 2006."

Hefyd:

"Our aim would be for a funding formula that takes us at least to the equivalent levels of finance available in 2010 for TV production and that additional funding for other areas e.g. radio and digital services, should come from elsewhere, the logic being that once austerity is over, given that this is the reason given for the cuts, funding for our only Welsh language TV should be re-instated."

**Ian Jones, S4C - 2 Mawrth 2017**
"It costs money to provide content across platforms, and I feel strongly that if our remit is not fit for purpose at the moment, I feel that our financing isn't. I cannot see how S4C can be ubiquitous across platforms in the future, and can target audience segments that are watching on different platforms, with the current financing, without becoming a second-class service in future. I don't think that the current financing we get is sufficient to target all those platforms and be ubiquitous."

**David Donovan,BECTU, 30 Mawrth**
"…we cannot get away from the significant damage that has been done to S4C because of the significant cuts, up to 40 per cent, that it faces.

…S4C's current cuts are causing some fundamental difficulties to its ability to deliver

…it's purely frustrating for us that S4C can be expected to make significant cuts on the back of a telephone call between Westminster and the head of the BBC. That's totally unacceptable in a modern democracy.""

**26.** Clywodd y Pwyllgor yn flaenorol fod nifer y staff yn S4C dros gyfnod o chwe blynedd wedi lleihau o 220 i lai na 130. Ar ôl symud i Gaerfyrddin mae S4C yn bwriadu cydleoli ei gweithrediadau technegol gyda'r BBC. Bydd nifer o staff S4C yn symud i weithio i'r BBC, sy'n golygu y bydd gan S4C tuag 80 aelod o staff. Mae costau cyffredinol wedi'u lleihau i "o gwmpas 4 y cant", o gymharu â "chyfartaledd o o gwmpas 11 neu 12 y cant yn y sector cyhoeddus"[10]. Ar ben hynny, mae wedi lleihau ei chostau comisiynu 35 y cant. Erbyn hyn, cost S4C fesul awr yw £10,800: yr isaf erioed.

Ein barn ni

Er ein bod yn cydnabod y gall datblygiadau ym myd technoleg fod wedi ac y byddant yn arwain at ostyngiad mewn rhai costau, mae'n gwbl amlwg inni fod y gostyngiadau cyllid a ddioddefwyd gan S4C wedi cael, ac yn cael, effaith barhaol a difrifol ar ei gallu i ddarparu ei gwasanaeth. Nid oedd unrhyw anghytuno rhwng y tystion bod cyllid S4C bellach yn annigonol ac mae angen ei gynyddu'n sylweddol. Os na fydd hyn yn digwydd, efallai y bydd y gwasanaeth yn dirywio i'r pwynt lle bydd yn methu â chynnal diddordeb a chefnogaeth y gynulleidfa y mae'n ei gwasanaethu heb sôn am ddatblygu'r gwasanaethau newydd sydd eu hangen ar gyfer y byd digidol modern.

[10] http://senedd.assembly.wales/documents/s54842/6%20October%202016.pdf

Fodd bynnag, mae tystion wedi bod yn llai clir ynghylch pa lefel o gyllid ychwanegol sydd ei angen. Tra bod S4C wedi dweud bod ei chyllideb bresennol ar gyfer cynnwys yn annigonol, nid yw wedi galw am ffigur penodol ar gyfer cyfanswm ei chyllideb. Yn hytrach, mae wedi dweud bod angen £6 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn arni er mwyn iddi allu darparu ei gwasanaethau dros deledu darlledu a llwyfannau digidol a buddsoddi mewn cynnwys newydd ar lwyfannau digidol heb effeithio ar y lefelau presennol o fuddsoddiad mewn cynnwys.

Adolygiad arfaethedig yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw'r cyfrwng priodol i edrych ar yr ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar S4C ar hyn o bryd, gan gynnwys yr hyn a olygir gan gyllid teg i'r sianel. Yn ein barn ni, dylai cyllid fod yn seiliedig ar yr hyn y disgwylir i S4C ei wneud. Dylai hyn ddilyn asesiad llawn a thrylwyr o'r gwasanaeth y gofynnir i S4C ei ddarparu. Dylai hyn olygu, fel yn achos y BBC, y dylai'r gofynion ar gyfer S4C gael eu nodi mewn Trwydded Gwasanaeth gyda chyllid yn adlewyrchu'r gofynion a nodir yn y drwydded. Tasg allweddol ar gyfer adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fydd asesu a nodi'r hyn y dylai'r gofynion trwydded hynny fod, gan gynnwys llwyfannau digidol newydd a chynnwys ar y llwyfannau hynny.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y gofynion y disgwylir i S4C eu bodloni yn cael eu gwerthuso'n llawn fel rhan o adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn cael eu nodi mewn trwydded gwasanaeth a ddefnyddir i asesu gofynion cyllido yn y dyfodol, gan gynnwys cyllid ar gyfer llwyfannau digidol newydd a chynnwys ar y llwyfannau hynny.

Er y dylai cyllid yn y dyfodol fod yn seiliedig ar drwydded gwasanaeth sy'n dilyn asesiad priodol o rôl S4C yn y dyfodol, rydym yn nodi isod at ddibenion enghreifftiol ein hasesiad o faint o gyllid ychwanegol y byddai ei angen i adfer cyllid S4C i'r sefyllfa yr oedd ynddi cyn y gwnaed y toriadau.

## Beth yw Cyllid 'Digonol'?

**27.** Yn 2011-12, o dan y trefniadau blaenorol, cafodd S4C £101 miliwn gan Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU. Yn 2016-17, cafodd S4C £81.3 miliwn o arian cyhoeddus (£74.5 miliwn o ffi'r drwydded deledu a £6.8 miliwn gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon).

**28.** Fodd bynnag, roedd adolygiad annibynnol blaenorol S4C yn 2004, a gomisiynwyd gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn nodi:

> "Roedd yr adolygiad annibynnol blaenorol o S4C a gomisiynwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn nodi nad yw'r grant blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Mynegai Pris Manwerthu gan y llywodraeth, a gyflwynwyd ym 1998, wedi cadw i fyny â chwyddiant darlledu, a bod prif ffynhonnell arall o refeniw o werthiannau hysbysebu y sianel yn dirywio yn yr hirdymor."

**29.** Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, byddai'r dyraniad cyllid i S4C ar gyfer 2011-12 wedi bod yn werth £111 miliwn yn 2016-17. Mae S4C wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor fod angen £6 miliwn ychwanegol y flwyddyn arni dim ond er mwyn darparu ei gwasanaethau ar y teledu ac ar lwyfannau digidol a buddsoddi mewn cynnwys newydd ar lwyfannau digidol heb effeithio ar y lefelau presennol o fuddsoddiad mewn cynnwys. Mae hyn yn awgrymu y byddai angen i gyllid blynyddol S4C fod yn tua

£117 miliwn y flwyddyn os mai'r bwriad oedd adfer y lefelau cyllido blaenorol a gwneud darpariaeth ar gyfer cynnwys a llwyfannau digidol newydd.

**30.** Fodd bynnag, efallai y bydd y lefel hon o gyllid yn annigonol i adfer y sianel i'w sefyllfa gyllido flaenorol, gan ei bod yn methu â chymryd i ystyriaeth y gyfradd uwch na chwyddiant o gynnydd mewn costau ym maes darlledu, a'r dirywiad hirdymor yn refeniw hysbysebu S4C - dwy ffaith a nodir yn adolygiad blaenorol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2004.

**31.** Er ein bod yn cymeradwyo galwadau S4C am bwerau masnachol ehangach, ni ddylid defnyddio hyn i leihau'r dyraniad cyllid yn y dyfodol ar gyfer y sianel, gan y bydd unrhyw gynnydd mewn refeniw masnachol yn mantoli'r refeniw hysbysebu a gollwyd yn rhannol.

Ein barn ni

Er y byddai'n demtasiwn galw am adfer cyllid S4C i ryw lefel hanesyddol blaenorol, yr angen dybryd go iawn yw cael asesiad modern sy'n edrych ymlaen i'r gwasanaethau y dylid disgwyl i S4C eu darparu ac i gyllid gael ei ddarparu i wneud y lefel hon o ddarparu gwasanaeth yn realistig.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r man cychwyn ar gyfer adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o gyllid S4C fod yn gydnabyddiaeth o faint y toriadau y mae S4C wedi'u dioddef ers 2011-12 gyda chyllid yn y dyfodol yn seiliedig ar ddiffiniad clir o ofynion y gwasanaeth y disgwylir i S4C ei ddarparu a phennu cyllid ar lefel sy'n galluogi S4C i fodloni'r gofynion hyn yn llwyddiannus.

## Sefydlogrwydd y cyllid

**32.** Mae S4C wedi galw am adolygiad "agored a thryloyw" o gyllid y sianel i benderfynu "pa gyllid sy'n ddigonol ar gyfer S4C nawr ac yn y tymor hwy". Mae hefyd wedi galw am:

– "gyllid digonol a sefydlog ... dros gyfnod penodol a sylweddol";

– cynnal lluosogrwydd y ffynonellau cyllido; a,

– mwy o fuddsoddiad.[11]

**33.** Mae S4C yn nodi bod angen i'w chylch gwaith newydd "ganiatáu ar gyfer pwerau masnachol ehangach er mwyn ysgogi refeniw ychwanegol"[12]. Mae'r sianel yn egluro bod darpariaethau statudol ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C a Channel 4 rhwng 1996 a 2003 yn rhai tebyg a bod y rhain wedi galluogi S4C i fuddsoddi mewn ystod eang o weithgareddau masnachol er mwyn creu incwm ychwanegol a gwerth cyfalaf i S4C – ac, yn ei dro, câi hwnnw ei fuddsoddi yn ôl yng ngwasanaethau cyhoeddus y sianel. Fodd bynnag, ers 2003, cwtogwyd yn sylweddol ar bwerau a rhyddid masnachol S4C gan fframwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Senedd i S4C fuddsoddi mewn mathau penodol o brosiectau. Mae'n galw am bwerau ehangach er mwyn galluogi S4C i fuddsoddi a chyfranogi mewn ystod ehangach o brosiectau masnachol heb orfod gofyn am gymeradwyaeth seneddol.

**34.** O ran refeniw, mae Boom Cymru yn nodi y dylai S4C fod yn[13]:

[11] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html
[12] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html
[13] http://senedd.assembly.wales/documents/s61307/Paper%204%20Boom%20Cymru%20Welsh%20Only.pdf

> “…rhydd i gasglu refeniw mewn unrhyw ffordd sy’n briodol i ddarlledwr cyhoeddus…yn yr un modd â Channel 4…”

**35.** Dywedodd S4C wrth y pwyllgor, o ystyried bos adolygiad annibynnol diwethaf S4C yn 2004, mae penderfyniadau ariannu yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu gwneud heb werthfawrogiad llawn o ddibenion cyfoes S4C.

Ein barn ni

Mae tair prif elfen i sicrhau bod gan S4C y sefydlogrwydd ariannol sydd ei angen arni i gynllunio’n hyderus ar gyfer y dyfodol.

- fel yr ydym eisoes wedi nodi, mae angen digon o arian arni i allu cyflawni ei rôl a darparu’r gwasanaethau newydd y mae eu hangen;
- yn ail, mae angen rhywfaint o sicrwydd ynghylch beth fydd ei lefel o gyllid yn y dyfodol; ac,
- yn drydydd, mae angen y sicrwydd hwnnw dros gyfnod rhesymol o amser.

Fodd bynnag, mae angen sicrwydd parhaus ar y trethdalwr hefyd bod arian cyhoeddus yn cael ei wario’n ddoeth ac yn effeithlon. Felly, rhaid i unrhyw setliad ariannu diwygiedig ar gyfer S4C gynnwys adolygiadau allanol annibynnol rheolaidd.

Roedd yr adolygiad annibynnol diwethaf o S4C tua 13 mlynedd yn ôl; mae hyn yn llawer rhy hir heb unrhyw adolygiad allanol. Mae’r fformiwla bresennol o S4C yn cael cyllid ‘digonol’ yn ddiystyr os yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw’r unig ganolwr o’r hyn sy’n ddigonol. Bydd ond yn arwain at yr amheuaeth fod y toriadau mewn cyllid naill ai’n fympwyol neu am resymau nad ydynt yn gysylltiedig â’r angen i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i ddinasyddion sy’n siarad Cymraeg.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell, pa bynnag drefniadau cyllido y cytunir arnynt ar gyfer S4C yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y dylai adolygiadau ac asesiadau annibynnol rheolaidd o anghenion cyllido S4C fod yn nodwedd o unrhyw setliad newydd.

Mae’n demtasiwn i awgrymu cyfnod penodol o amser ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol. Mae’n amlwg inni fod 13 mlynedd yn rhy hir ac na fyddai unrhyw setliad cyllido llai na phum mlynedd yn rhoi’r amser sydd ei angen ar S4C i gynllunio ar gyfer y dyfodol ac addasu ei gwasanaethau i ymdopi â thueddiadau cyfoes sy’n dod i’r amlwg.

Bydd angen i unrhyw setliad yn y dyfodol hefyd ystyried pwysau chwyddiant o’r cychwyn cyntaf. Rydym yn nodi bod adnewyddu Siarter y BBC yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ffi’r drwydded i gynyddu yn unol â chwyddiant tan 2021-22. Byddai’n annheg pe na S4C yn cael sicrwydd tebyg ar gyfer ei chyllideb ar gyfer yr un cyfnod o amser. Yn wir, mae achos prima facie o leiaf y dylai’r trefniadau adolygu a chyllido ar gyfer S4C fod yn gysylltiedig â’r rhai ar gyfer y BBC gyda threfniadau tebyg ar gyfer pwysau chwyddiant yn cael eu mabwysiadu.

Rydym wedi gwrthsefyll y demtasiwn i fod yn rhy ragnodol, sy’n fater ar gyfer adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Fodd bynnag, credwn os yw’n ddigon da i’r BBC

gael rhywfaint o amddiffyniad yn erbyn chwyddiant, yna dylai hefyd fod yn ddigon da i S4C, i sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaeth israddol mewn cymhariaeth.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod mecanwaith ar gyfer sicrhau bod incwm S4C yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant yn cael ei gynnwys ym mha bynnag setliad cyllid y cytunir arno yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth i gysylltu trefniadau ariannu ac adolygu S4C i rai'r BBC.

Mae S4C wedi rhoi rhywfaint o sylw i 'luosogrwydd' cyllid ac y dylai barhau i dderbyn rhan sylweddol o'i hincwm gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn ogystal â thrwy ffi'r drwydded. Yn amlwg, mae hefyd angen iddi fod yn gallu gwneud y mwyaf o gyfleoedd masnachol boed trwy werthu hysbysebion neu drwy werthiannau rhaglenni.

Er ein bod yn cytuno y dylai S4C fod yn gallu manteisio ar gyfleoedd masnachol i'r graddau mwyaf posibl, nid ydym yn gwbl argyhoeddedig bod lluosogrwydd cyllid y sector cyhoeddus yn egwyddor uchel. Yr hyn sy'n bwysig yw bod S4C yn cael arian cyhoeddus teg a digonol a bod yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn derbyn ei hatebolrwydd i ddarparu S4C gyda chylch gwaith modern ac ymarferol, gofynion gwasanaeth clir a chyllid digonol i gyflawni ei rôl.

Wedi dweud hynny, mae hyn yn codi mater o ran atebolrwydd gan fod angen i S4C gael lefel briodol o annibyniaeth, ond hefyd fod yn atebol i'r Llywodraeth a'r cyhoedd ehangach y mae'n eu gwasanaethu. Tra bo S4C yn parhau heb ei datganoli, rydym felly o blaid yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i ddarparu cyfran sylweddol o gyllid S4C fel bod llinell uniongyrchol o atebolrwydd am wario i gynrychiolwyr etholedig yn parhau.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon barhau i ddarparu rhan sylweddol o arian cyhoeddus S4C, tra bod S4C yn parhau heb ei datganoli.

Mae'r mater o atebolrwydd cyhoeddus S4C o fewn Cymru ac i'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn codi. Rydym yn falch y bydd S4C bellach yn gosod ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon gerbron y Cynulliad fel canolbwynt ar gyfer craffu rheolaidd gan Aelodau etholedig yng Nghymru. Mae dadl ehangach hefyd ynghylch a ddylai'r cyfrifoldeb dros S4C gael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol a dylai'r cwestiwn hwn fod yn rhan o adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Beth bynnag, rhaid i'r adolygiad ystyried diddordeb cyfreithlon y cyhoedd yng Nghymru, a'i chynrychiolwyr etholedig, yn S4C ac mae angen ystyried sut y gall sianelau ffurfiol o ran atebolrwydd i'r Cynulliad gael eu cryfhau.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried sut y gall atebolrwydd ffurfiol S4C i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei gryfhau.

# 04. Gweledaedd gwasanaethau S4C

**36.** Un o elfennau allweddol cynllun S4C i fod yn ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn hytrach na'n Ddarlledwr Gwasanaethau Cyhoeddus yn unig, yw'r cysyniad o "ddarparu cynnwys ar bob llwyfan". Mae'n nodi bod yn rhaid i'w gwasanaethau fod ar gael ar bob llwyfan poblogaidd - yn cynnwys darlledu, setiau teledu clyfar, y cyfryngau cymdeithasol, safleoedd fideo ffurf-fer a ffurf-hir ar-lein. Dywed S4C ei bod am wneud y canlynol:

- datblygu un cartref digidol hwylus sy'n galluogi ein cynulleidfa i ddefnyddio holl gynnwys S4C mewn un lle, gan gynnwys cynnwys o'r archif lle gellir sicrhau'r hawliau perthnasol;
- cynnig gwasanaeth personol i aelodau'r gynulleidfa – cynnwys sy'n diwallu anghenion unigol a'r gallu i guradu'n unol â hynny ar lwyfannau perthnasol;
- sicrhau bod brand a chynnwys S4C mor amlwg ac ar gael mor rhwydd â darparwyr darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill ar setiau teledu clyfar, ffrydwyr y cyfryngau a darparwyr ar alw eraill; a,
- datblygu a manteisio ar lwyfannau priodol ar gyfer darparu cynnwys digidol i dargedu grwpiau oedran gwahanol, a'u poblogi'n rheolaidd gyda chynnwys ffurf-fer newydd, apelgar.[14]

**37.** Fel yr eglurwyd uchod, mae S4C yn nodi bod angen £6 miliwn ychwanegol y flwyddyn arni i ddarparu ei gwasanaethau dros deledu darlledu a llwyfannau digidol a buddsoddi mewn cynnwys newydd ar lwyfannau digidol heb effeithio ar y lefelau presennol o fuddsoddiad mewn cynnwys.

**38.** Dywedodd Huw Marshall, ymgynghorydd ym maes y cyfryngau digidol, wrth y Pwyllgor yn flaenorol y dylid blaenoriaethu'r gwaith o sicrhau gweledaedd S4C ar lwyfannau cyfoes fel Apple TV, YouTube a Facebook. Nododd Teledwyr Annibynnol Cymru fod "amlygrwydd yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus di-dâl ar yr EPG [Canllaw Rhaglenni Electronig] a setiau teledu clyfar yn parhau i fod yn hollbwysig", ac er gwaethaf twf mewn ffigurau gwylio ar-lein, "mae'n hanfodol i S4C gynnal ei phresenoldeb ar rwydwaith daearol, di-dâl." Mae Boom Cymru yn nodi bod angen diogelu gweledaedd llwyfannau darlledwyr cyhoeddus y DU ar yr EPG drwy'r gyfraith. Dywedodd S4C wrth y Pwyllgor y byddai rheoleiddio setiau teledu clyfar i roi amlygrwydd priodol i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ddefnyddiol.

**39.** Mae gan S4C le rhesymol amlwg ar y rhan fwyaf o'r prif lwyfannau darlledu, Freeview - sianel 4, Freesat - sianel 104, Sky - sianel 104 (134 heb danysgrifio). Fodd bynnag, mae S4C ar sianel 166 ar Virgin TV.[15]

**40.** Fodd bynnag, gall S4C fod yn llai amlwg ar apiau ar setiau teledu clyfar ac ar wasanaethau dal i fyny fel i-player. Yn adroddiad 'Y Darlun Mawr' y Pwyllgor, daeth y Pwyllgor i'r casgliadau a ganlyn:

> "Yn y cyfnod aml-sianel, mae amlygrwydd yn y Canllaw Rhaglenni Electronig yn bwysig o hyd i ddarlledwr, yn wir mae llywio drwy'r llu o sianeli sydd ar gael erbyn hyn yn ôl pob tebyg yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy pwysig.

[14] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html
[15] http://www.s4c.cymru/cy/gwasanaethau-mynediad/page/5865/sut-i-dderbyn-s4c-digidol/

Mae Ofcom yn rheoleiddio'r maes hwn ac mae'r Cod Ymarfer ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig yn nodi bod yn rhaid rhoi graddau o amlygrwydd y mae Ofcom yn eu hystyried sy'n briodol i restru sianeli darlledu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn adroddiad y llynedd, mynegodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig bryder ynghylch y mater hwn ac roedd yn galw ar sianeli Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys S4C, i fod yn fwy amlwg yn y Canllawiau.

Rydym hefyd yn pryderu nad yw S4C yn amlwg yn y Canllawiau, ac ar gymwysiadau sydd bellach wedi'u gosod yn barod ar lawer o setiau teledu clyfar, y mae ei bwysigrwydd diwylliannol ac ieithyddol yng Nghymru yn ei haeddu.  Credwn y dylai amlygrwydd S4C yn y Canllaw Rhaglenni Electronig gael ei wella'n sylweddol i adlewyrchu'r pwysigrwydd hwnnw."

**41.** Yn ei hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth y Pwyllgor[16]:

"The Communications Act 2003 gives Ofcom a duty to ensure that "appropriate prominence" on the Electronic Programme Guide for linear TV is given to Public Service Broadcasters (PSBs) such as S4C.

As part of the Balance of Payments Consultation, the Government considered extending the Electronic Programme Guide (EPG) prominence regime for PSBs to include their on demand services such as the BBC's iPlayer.

Our conclusion then - which remains our view – is that we have not seen compelling evidence of harm to PSBs to date. However, we recognise that this is a fast moving technological landscape which needs to be kept under review and therefore under the Digital Economy Act 2017, Ofcom has been placed under a new duty to publish a report which will look at the ease of finding and accessing PSB content across all TV platforms on both a linear and on-demand basis. Ofcom will also be required to review its broadcast EPG code by 1 December 2020 and publish its first report on accessibility and discoverability of PSB content before then.

There are at present no requirements on how PSBs' on-demand players should organise the content available within their services. So the prominence of S4C programmes within iPlayer is a matter for the BBC."

**42.** Tra nododd Ofcom[17]:

"… we recognise that under section 310 of the Communications Act 2003, we are required to review the prominence provisions from time to time.  However, Ofcom has limited resources and reassesses how those resources are best deployed at regular intervals.  In light of the absence of legislative reform and competing policy priorities, we have currently no plans to carry out a review of

[16] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16079
[17] http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=16079

the EPG Code in respect of the prominence provisions. We are aware that the current Code may have some limitations and may therefore revisit this position in the future."

Ein barn ni

Nodwn gais penodol S4C am £6 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn i ddarparu ei gwasanaethau dros deledu darlledu a llwyfannau digidol a buddsoddi mewn cynnwys newydd ar lwyfannau digidol heb effeithio ar y lefelau presennol o fuddsoddiad ac yn cytuno y dylai adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon roi ystyriaeth lawn ac o ddifrif i'r galwad penodol hwn.

Er bod safle S4C ar yr EPG yn weddol amlwg ar rai llwyfannau, nid yw hyn yn wir ar gyfer yr holl ddarparwyr ac mae ei safle ar apiau setiau teledu clyfar yn llawer llai amlwg. Rydym yn pryderu ynghylch ymateb yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom i'n pryderon blaenorol yn y maes hwn, a oedd yn ymddangos yn hunanfodlon. Yn ein barn ni, mae angen i S4C gael cymaint o amlygrwydd â phosibl a dylai adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon edrych ar y maes hwn yn fanylach gan ystyried gwella amlygrwydd S4C ar yr EPG ac ystyried a oes angen cynnal gwaith rheoleiddio pellach o setiau teledu clyfar er mwyn rhoi'r amlygrwydd priodol i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn sicrhau bod amlygrwydd S4C ar ganllawiau EPG yn cael ei wella i sicrhau cydraddoldeb rhwng S4C a Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a bod angen gwneud gwaith rheoleiddio pellach ar setiau teledu smart i roi amlygrwydd dyledus i'r holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar ganllawiau EPG ac apiau sydd wedi'u cyn-lwytho.

# 05. Llywodraethu ac atebolrwydd

**43.** Mae Awdurdod S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol. Mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu yn y Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn atebol am yr hyn sy'n cael ei ddarlledu ar S4C ac am sicrhau bod y sianel yn cael ei rheoli'n gywir. Mae Awdurdod S4C yn atebol yn y lle cyntaf i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a San Steffan, ac yn yr ail mae'n atebol i Ymddiriedolaeth y BBC yn sgil y trefniadau cyllido sydd ar waith ers 2013. Ar ôl cytuno ar Siarter newydd y BBC y llynedd, daeth Ymddiriedolaeth y BBC i ben ym mis Ebrill 2017. Ar hyn o bryd mae'r ddau ddarlledwr yn trafod beth fydd y trefniadau atebolrwydd newydd ar ôl creu Bwrdd Unedol newydd y BBC. Dywed S4C yn Gwthio'r Ffiniau[18] fod y trafodaethau hyn bellach ar gam datblygedig. Dywedodd S4C a'r BBC wrth y Pwyllgor nad yw'n briodol bod aelod o fwrdd y BBC yn aelod llawn o Awdurdod S4C.

**44.** Cyn hynny, clywodd y Pwyllgor (gan Bwyllgor Cynghori Ofcom)[19] fod cydberthynas reoliadol ddeddfol rhwng S4C ac Ofcom ar hyn o bryd, ond y dylai honno ddod yn gydberthynas ymarferol, ac felly y dylai S4C gael ei rheoleiddio gan Ofcom, ynghyd â darlledwyr eraill yn y DU.

**45.** Dywedodd Teledwyr Annibynnol Cymru wrth y Pwyllgor nad yw'n briodol bellach i'r BBC, o dan ei Siarter newydd, ymwneud â threfniadau atebolrwydd S4C. Dywedodd y dylai'r cyllid a geir drwy ffi'r drwydded y BBC fynd yn syth i S4C, heb oruchwyliaeth gan y BBC. Awgrymodd Ron Jones o Tinopolis drwydded gwasanaeth - fel sydd ar gyfer y BBC - ar gyfer S4C, ar y sail y byddai hyn yn helpu wrth fonitro perfformiad y sianel.

**46.** Er na wnaeth y Gweinidog ar gyfer y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes alw am i ddarlledu gael ei ddatganoli i Gymru, nododd (yn ei dystiolaeth ysgrifenedig)[20] fod Llywodraeth Cymru, "ers peth amser", wedi galw "am i drefniadau llywodraethu darlledu adlewyrchu'r sefyllfa ddatganoledig sydd ohoni yn y DU a chefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion polisi sydd wedi'u pennu yng Nghymru, ar gyfer Cymru.

**47.** Nid yw S4C yn cynnig "barn gorfforaethol bendant gerbron ynghylch y strwythurau atebolrwydd, llywodraethu a rheoleiddio gorau" ar gyfer y sianel, ond mae'n nodi sawl elfen allweddol yn y meysydd hyn, sef[21]:

- bod S4C yn bodoli fel sefydliad annibynnol;
- dylai Ofcom reoleiddio S4C ar gyfer y rhan fwyaf o faterion (ac eithrio, er enghraifft, canllawiau a pholisïau iaith); a,
- dylai aelodau anweithredol gynrychioli mwyafrif clir y bwrdd neu'r corff llywodraethu.

Ein barn ni

Rydym yn cytuno'n gryf gydag S4C ac eraill y mae'n rhaid diogelu annibyniaeth S4C. O ystyried bod y rhan fwyaf o gyllid S4C yn cael ei sianelu ar hyn o bryd drwy'r BBC mae pryder amlwg y gallai S4C fod yn amodol ar gyfarwyddyd gan y BBC yn hytrach na phartner cydweithio. Pa bynnag drefniadau

[18] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html
[19] http://senedd.assembly.wales/documents/s61937/30%20March%202017.pdf
[20] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251
[21] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html

llywodraethu y cytunir arnynt ar gyfer y dyfodol, mae'n bwysig iawn eu bod yn amddiffyn safbwynt S4C fel darlledwr a sefydliad annibynnol.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai trefniadau llywodraethu S4C yn y dyfodol amddiffyn safle S4C fel darlledwr a sefydliad annibynnol.

O ran yr hyn y dylai'r trefniadau llywodraethu hynny fod, nid ydym yn ystyried mai awdurdod presennol S4C yw'r model cywir ar gyfer y dyfodol. Yn hytrach, credwn y dylent ddilyn y model llywodraethu newydd ar gyfer y BBC. Hynny yw, bwrdd unedol, a ddiogelir gan statud neu drwy Siarter, a reoleiddir gan Ofcom o dan drefniant trwydded gwasanaeth gyda'i gyllid wedi'i lywio gan y drwydded gwasanaeth a'i bennu a'i ddiogelu am gyfnod sylweddol o amser. Bydd y trefniadau hyn yn darparu strwythur llywodraethu a rheoli clir, ynghyd â llinellau atebolrwydd clir ar gyfer perfformiad gwasanaeth a'r lefel angenrheidiol o sicrwydd cyllid fel y gall y gwasanaethau a nodir yn y drwydded gwasanaeth gael eu cynllunio a'u darparu.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell y dylai S4C gael ei rheoleiddio gan Ofcom o dan drefniant trwydded gwasanaeth.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell y dylai Awdurdod presennol S4C gael ei ddisodli gan fwrdd unedol, a ddiogelir gan statud neu Siarter, sy'n debyg i fodel presennol y BBC.

# 06. Yr effaith ddiwylliannol ac economaidd

## Hawliau rhaglenni

**48.** Mae S4C yn nodi bod y fframwaith statudol presennol yn golygu, yn y blynyddoedd diwethaf, "mai cynhyrchwyr yn hytrach nag S4C sy'n dal hawliau ymelwa bellach"[22] lle bo rhaglenni yn y cwestiwn. Dywedodd S4C wrth y Pwyllgor ei bod yn fodlon ar y sefyllfa hon, ond ei bod yn teimlo y byddai'n ddymunol pe gallai S4C fanteisio ar yr hawliau hyn mewn achosion lle nad oedd y cynhyrchwyr yn gwneud hynny. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Pact, y gymdeithas masnach teledu annibynnol, ei bod yn anghytuno'n gryf â barn S4C yn hyn o beth. Awgrymodd Teledwyr Annibynnol Cymru y byddai newid i gomisiynu ar gyfer cynnwys digidol yn golygu y bydd angen i faterion o ran hawliau gael eu hystyried o'r newydd.

**49.** Yn ôl Huw Marshall, oherwydd bod gan raglenni Cymraeg a rhaglenni Saesneg werth economaidd gwahanol, dylid eu trin yn wahanol. Dywedodd hefyd y bydd angen i unrhyw drefn hawliau y mae S4C yn ei negodi yn y dyfodol adlewyrchu arferion gwylio ar-lein, yn hytrach nag arferion unionlin. Dywedodd Dr McElroy wrth y Pwyllgor fod fframwaith hawliau cyfredol yn y DU wedi'i seilio ar werth allforio unrhyw gynnwys. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Sefydliad Materion Cymreig, nodir fod yr adolygiad yn gyfle i asesu a yw'r cydbwysedd rhwng hawliau'r cynhyrchydd a hawliau'r darlledwr yn briodol[23]. Awgrymodd Ron Jones o Tinopolis y dylai S4C gadw'r hawliau ar gyfer cynnwys Cymraeg ac yna gwneud y deunydd hwn ar gael am ddim.

**50.** Dywedodd S4C wrth y Pwyllgor ei bod yn bosibl y ceir achosion ar hyn o bryd lle na chaiff potensial masnachol ei wireddu'n llawn am resymau dilys. Aeth ymlaen i egluro[24]:

> "Mae hyn yn her y gallai S4C a'r sector gynhyrchu elwa o'u datrys. Er enghraifft, gallai fod yn fuddiol i S4C a'r cyd-gynhyrchwyr i ganfod strwythur newydd o archwilio potensial masnachol a marchnata cynnwys ar y cyd gan rannu'r risg a'r buddiannau ariannol sy'n deillio o hynny. Mi fyddai angen cefnogaeth Ofcom i newid ein Cod Ymarfer a'r fframwaith hawliau fyddai'n galluogi hyn i ddigwydd."

**51.** Mae Teledwyr Annibynnol Cymru yn nodi'r sefydlogrwydd y mae comisiynau gan S4C yn ei roi i'r sector cynhyrchu yng Nghymru, a'r graddau y mae'r comisiynau hyn yn rhoi cyfleoedd i gwmnïau cynhyrchu feithrin profiad a thyfu.

### Ein barn ni

Mae parodrwydd gwylwyr yn y DU i dderbyn rhai genres o raglenni gydag isdeitlau wedi dangos y gall rhaglenni gael eu gwerthu'n llwyddiannus ar draws ffiniau cenedlaethol ac ieithyddol. Er bod y farchnad ar gyfer rhaglenni Cymraeg bob amser yn debygol o fod yn sylweddol llai bywiog nag ar gyfer rhaglenni Saesneg, nid yw hynny i ddweud na ellir cael marchnad fasnachol hyfyw ar gyfer hawliau rhaglenni yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau presennol, lle mae gan y cynhyrchwyr yr holl hawliau ymelwa, ar wahân i'r rheini a roddwyd i S4C am gyfnod y cytunwyd arno, wedi arwain, yn ein barn ni, at sefyllfa lle nad yw

[22] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html
[23] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251
[24] http://senedd.assembly.wales/documents/s63691/Paper%203%20Welsh%20only.pdf

pa bynnag farchnad y gall fod ar gyfer rhaglenni Cymraeg yn cael ei defnyddio i'r graddau y gallai fod. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae hawliau wedi dod yn segur a lle nad yw perchnogion hawliau yn gwneud unrhyw ymdrech i fanteisio ar yr hawliau hynny.

Mae bodolaeth gyfan S4C yn ymyrraeth yn y farchnad, a fyddai fel arall yn methu â darparu'n ddigonol ar gyfer yr angen lleiafrifol penodol hwn o fewn darlledu yn y DU. Hyd yn oed o fewn Cymru, mae S4C bob amser yn debygol o fod yn gwasanaethu cynulleidfa lleiafrifol, er ei fod yn lleiafrif sylweddol iawn o ran niferoedd a diwylliant. O ystyried canllawiau Ofcom, gallai S4C a chynhyrchwyr yng Nghymru gymryd ymagwedd wahanol tuag at y mater o gynhyrchwyr yn manteisio ar hawliau a fyddai'n ymyrraeth resymol yn y farchnad i sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddiannau masnachol deunydd. Yna gallai unrhyw refeniw ychwanegol a godir gael ei ailfuddsoddi mewn darlledu Cymraeg er budd cynulleidfaoedd, S4C a'r cynhyrchwyr annibynnol eu hunain, sy'n debygol o elwa o ddefnydd masnachol gwell o raglenni a fformatau ac o'r refeniw ychwanegol y byddai gan S4C ar gyfer comisiynau yn y dyfodol.

Felly, rydym yn cefnogi awgrym S4C y dylai gael dod o hyd i ffyrdd o weithio gyda chyd-gynhyrchwyr i nodi potensial masnachol a chynnwys y farchnad, wrth rannu risgiau a manteision ariannol.

Nodwn y gallai hyn olygu newid cod ymarfer a fframwaith hawliau S4C i hwyluso'r newid hwn yn iawn. Fodd bynnag, yn y cyfamser, credwn y dylai S4C, gan weithio gyda'r cynhyrchwyr annibynnol, wneud mwy ei hun i flaenoriaethu'r gwaith o ddod o hyd i ffyrdd o weithio ar y cyd gyda chynhyrchwyr annibynnol i rannu risgiau a manteision a gwella'r defnydd masnachol o raglenni.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen er mwyn hwyluso cydweithio gwell rhwng S4C a chynhyrchwyr annibynnol i wella'r defnydd masnachol o raglenni Cymraeg drwy nodi a marchnata cyfleoedd masnachol a thrwy rannu risgiau a manteision.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell y dylai S4C flaenoriaethu gweithio ar y cyd gyda chynhyrchwyr annibynnol i rannu risgiau a manteision a gwella'r defnydd masnachol o raglenni.

## Cysylltiadau diwydiannol

**52.** Nodwyd hefyd y dadansoddiad clir o'r gydberthynas rhwng yr Undebau Llafur sy'n gweithio yn y sector annibynnol a rhai o'r cynhyrchwyr eu hunain. Mae hwn yn sector cymharol fach ac mae'n anffodus bod y gydberthynas rhwng Undebau Llafur a chyflogwyr wedi torri i lawr i'r fath raddau mewn rhai achosion. Byddem yn annog cynhyrchwyr annibynnol i gydnabod y gwerth a ddaw yn sgil Undebau Llafur a gweithio'n agos gyda hwy i fynd i'r afael â phryderon eu haelodau.

## Yr effaith ddiwylliannol

**53.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes[25] yn nodi bod gan S4C "ran bwysig i'w chwarae" wrth gyflwyno nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn honni bod gan S4C "rôl allweddol o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a bod ganddi gyfle o bosibl i wneud mwy yn y maes hwn", gan weithio mewn partneriaeth â chyrff, gan gynnwys Cymru Greadigol (corff a fydd yn cefnogi'r diwydiannau creadigol) pan fydd Llywodraeth

[25] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251&RPID=1009372961&cp=yes

Cymru yn ei sefydlu. Soniodd S4C wrth y Pwyllgor am bwysigrwydd cydweithio rhwng darlledwyr, cynhyrchwyr a'r sector cyhoeddus o ran datblygu sgiliau o fewn y diwydiant. Nododd[26]:

> "Yn y gorffennol mae cyrff megis Creative Skillset Cymru a Cyfle wedi sicrhau bod yna gydweithio pwrpasol yn digwydd rhwng y tair elfen o'r gadwyn. Er hynny, mae diflaniad y ddau gorff yn dangos pa mor anodd yw hi i gynnal sdrwythurau, ar lefel Cymru, sy'n ddigon cryf i ddod â'r elfennau oll ynghyd."

**54.** Mae Gwthio'r Ffiniau[27] yn nodi'r cysylltiad cryf rhwng gweithgareddau S4C ac ymdrechion i gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n nodi prinder yr adnoddau digidol Cymraeg, ac yn dod i'r casgliad y "bydd gwireddu gweledigaeth S4C ar gyfer y dyfodol yn cael effaith uniongyrchol ar gynnal a chadw'r ecosystem ddiwylliannol sy'n angenrheidiol er mwyn i'r iaith barhau i ffynnu". Mae'r sianel yn nodi bod ei gweithgarwch hyd yma i hybu dysgu gydol oes wedi bod yn "dameidiog", ac yn y dyfodol y bydd yn "defnyddio dull mwy cyfannol a bwriadol", gan gynnwys:

> – annog a chefnogi trosglwyddiad iaith e.e. drwy Cyw, sef ein gwasanaeth cyn oedran ysgol, a Dal Ati, sef ein cynnig ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd;
>
> – cefnogi'r system addysg a'r cwricwlwm drwy gomisiynu dramâu neu gyfresi ffeithiol sy'n adlewyrchu'r themâu yn y cwricwlwm;
>
> – sicrhau bod ystod ehangach o adnoddau cynnwys ar gyfer pob grŵp oedran ar gael yn eang ac yn rhwydd ar gyfer dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Bydd hyn yn ychwanegu at y gwaith partneriaeth sydd eisoes wedi dechrau gyda'r Coleg Cymraeg yn ogystal â gweithio gydag addysgwyr i sicrhau bod materion sy'n effeithio ar bobl ifanc heddiw – o seiberfwlio i bornograffi dial – yn cael eu hadlewyrchu yn rhywfaint o'r cynnwys sy'n cael ei greu ar gyfer y gynulleidfa hon; a,
>
> – cyfrannu'n weithredol at hybu sgiliau cyfryngau a digidol, gan gynnwys disgyblaethau y mae'r sector cynhyrchu yng Nghymru yn dibynnu arnynt.

**55.** Dywedodd S4C wrth y Pwyllgor fod "llwyddiant S4C fel darparwr cynnwys cyfryngol ar bob llwyfan...yn greiddiol i ffyniant y Gymraeg yn y dyfodol". Fodd bynnag, aeth ymlaen i nodi[28]:

> "...mae angen gofal gyda'r cysyniad y dylai S4C yn ffurfiol fod â chenhadaeth i hyrwyddo amcan penodol gan unrhyw lywodraeth. Mae annibyniaeth darlledwyr cyhoeddus oddi wrth ddylanwad gwleidyddol - pa mor glodwiw bynnag fo'r nod - yn egwyddor sylfaenol yn nhraddodiad darlledu cyhoeddus y Gorllewin, ac mae S4C yn falch o fod yn rhan o'r traddodiad hwn."

Ein barn ni

Y rheswm sylfaenol dros fodolaeth S4C yw cefnogi, meithrin a chryfhau'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny drwy ddarparu adloniant a rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer siaradwyr

[26] http://senedd.assembly.wales/documents/s63691/Paper%203%20Welsh%20only.pdf
[27] http://www.s4c.cymru/gwthiorffiniau/c_index.html
[28] http://senedd.assembly.wales/documents/s63691/Paper%203%20Welsh%20only.pdf

Cymraeg yn eu dewis iaith. Mae'n rhagofyniad llwyr o unrhyw bolisi ehangach i gefnogi'r Gymraeg fod gwasanaeth fel S4C yn bodoli i ddarparu cyd-destun modern a bywiog ar gyfer y defnydd o'r iaith.

Mae'r cwestiwn wedyn yn codi a ddylai S4C wneud mwy i gefnogi, neu weithio gyda, Llywodraeth Cymru er mwyn ei helpu i gyflawni ei hamcanion ar gyfer y Gymraeg, fel yr uchelgais i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Os ydyw, a fydd hyn mewn unrhyw ffordd yn peryglu ei hannibyniaeth wleidyddol fel darlledwr?

Rydym yn cydnabod y peryglon o S4C yn cael ei hystyried fel ei bod yn helpu i weithredu polisïau Llywodraeth. Wedi dweud hynny, credwn fod meysydd lle gallai S4C a Llywodraeth Cymru gydweithio'n agosach tuag at yr hyn sy'n nod cyffredin o gefnogi'r Gymraeg. Ni ddylai gefnogi polisïau penodol y Llywodraeth. Er hynny, efallai y bydd cyfle i Lywodraeth Cymru gomisiynu darnau penodol o waith neu allbwn gan S4C a fyddai'n helpu i ategu'r nod o gefnogi'r Gymraeg.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai weithio gydag S4C i gomisiynu gwaith neu gynnwys sydd â'r nod o ategu ei hamcanion ar gyfer cefnogi'r Gymraeg.

# 07. Y gydberthynas gyda'r BBC a chydweithio ehangach

**56.** Mae Deddf Darlledu 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn darparu o leiaf 520 awr o gynnwys y flwyddyn i S4C. Mae'r rhaglenni yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, chwaraeon byw, Pobol y Cwm a darllediadau helaeth o'r Eisteddfod Genedlaethol. Gwerth y deunydd yw £19.4 miliwn y flwyddyn yn 2017-18.

**57.** Yn ôl BBC Cymru, yn ychwanegol at y 520 o oriau'r flwyddyn a ddarperir yn statudol, mae'r darlledwr yn cydweithio gydag S4C ar raglenni sydd o fudd i gynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Mae'n nodi'r ddrama drosedd Y Gwyll/Hinterland fel enghraifft o'r dull hwn, a'r ffaith bod "rhaglenni ffeithiol tebyg yn cael eu datblygu ar hyn o bryd"[29]. Mae cydweithio ehangach rhwng y BBC ac S4C yn cynnwys:

- mynediad at swyddogaethau casglu newyddion y BBC ar gyfer y rhaglen Newyddion 9 (sydd ei hun yn rhan o'r 520 awr);
- rhaglenni chwaraeon – a ddarperir i S4C gan y BBC heb godi tâl am unrhyw un o'r hawliau rhaglennu;
- mynediad at BBC iPlayer ar sail "nid-er-elw"; a,
- mynediad breintiedig at archif rhaglenni BBC Cymru ar "delerau nad ydynt ar gael i ddarlledwyr eraill" ar gyfer rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C.

**58.** Dywedodd cwmni cynhyrchu teledu Boom Cymru wrth y Pwyllgor fod lle am ragor o gyd-gynhyrchu rhwng S4C a darlledwyr eraill, gan gynnwys y BBC ac ITV.

**59.** Roedd papur y Gweinidog[30] yn nodi, yn dilyn nifer o newidiadau a achoswyd gan Siarter newydd y BBC, ei bod yn "hanfodol y caiff y bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC ei diweddaru a'i hadnewyddu, er mwyn cefnogi a galluogi gwasanaethau S4C i dyfu ac arallgyfeirio mewn byd aml-lwyfan." At hynny, mae'r Gweinidog o'r farn y dylai S4C "gryfhau'r cysylltiadau presennol gyda sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a phartneriaid eraill." Dywedodd:

> "Dylai S4C sicrhau ei bod yn comisiynu mwy o raglenni yn seiliedig ar eiddo deallusol o Gymru ac am Gymru a'i bod yn datblygu arlwy aml-lwyfan sy'n canolbwyntio ar yr eiddo deallusol hwnnw mewn partneriaeth ag eraill (e.e. y potensial i gydgysylltu drwy lyfrau / ar-lein / gemau). Byddai hyn yn cyflwyno cynnig cyfoethocach a mwy deniadol ac yn cefnogi twf pellach yn y sector creadigol yng Nghymru."

**60.** Roedd Ron Jones o Tinopolis wedi awgrymu yn flaenorol i'r Pwyllgor fod "yr adolygiad yma yn gyfle i greu corff newydd gwell sy'n gymwys i'r oes ddigidol". Nododd yr amrywiaeth eang o ymyriadau sector cyhoeddus yn y cyfryngau Cymraeg - o gyllid ar gyfer S4C i Gyngor Llyfrau Cymru - a nododd "fod yna ddadl dros ddwyn ynghyd y gosod strategaeth, cyllido a chyflwyno'r cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn"[31].

---

[29] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251
[30] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251
[31] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251

**61.** Yn adroddiad 'Y Darlun Mawr' y Pwyllgor[32], daeth y Pwyllgor i'r casgliadau a ganlyn:

> "Rydym yn gwerthfawrogi annibyniaeth S4C a chredwn fod y cydweithio rhyngddo a BBC Cymru wedi bod o fudd i gynulleidfaoedd. Er y gallai fod wedi bod yn drefniant o ran cyfleustra i ddechrau, ymddengys bellach fod S4C a'r BBC wedi creu eu cydberthynas yn un sydd o fudd i'r ddwy ochr.
>
> Er ein bod yn derbyn y bydd yn rhaid iddo newid a datblygu yn sgil amgylchiadau sy'n newid, fel Siarter newydd y BBC, credwn y dylai'r gydberthynas barhau fel cydberthynas gydweithredol sydd o fudd i'r ddwy ochr, yn greadigol ac o ran defnyddio adnoddau. Byddem yn pryderu pe byddai'r gydberthynas yn llithro yn ôl i un yn seiliedig yn syml ar rwymedigaethau cytundebol neu gyfrifeg."

Ein barn ni

Rydym yn parhau i fod o'r farn a nodir uchod. Fodd bynnag, mae manteision cydweithio yn debygol o ymestyn y tu hwnt i'r BBC yn unig. Mae nifer o'r rhai sydd wedi rhoi tystiolaeth inni wedi pwysleisio'r angen i S4C weithio gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â darparu cyfryngau Cymraeg ar draws amrywiaeth o lwyfannau. Rydym o'r farn bod rhinwedd sylweddol yn hyn ac y dylai cylch gwaith S4C yn y dyfodol gynwnys disgwyliad y bydd yn cydweithio â sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â darparu cyfryngau Cymraeg ar draws gwahanol lwyfannau.

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith S4C gynnwys gofyniad penodol i weithio ar y cyd gyda'r BBC a sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n darparu neu'n cefnogi cyfryngau Cymraeg ar draws amrywiaeth o lwyfannau.

Fodd bynnag, ni all cydweithio fod un ffordd yn unig. Ni ddylai lle'r Gymraeg yng Nghymru ac ar y cyfryngau darlledu yng Nghymru gael ei gyfyngu i S4C yn unig. Ceir cydnabyddiaeth ymhlith darlledwyr yng Nghymru bod angen i'r defnydd o'r Gymraeg gael ei 'normaleiddio' drwy ddangos cynnwys Cymraeg ar sianeli eraill. Dylai'r gofynion a osodir ar ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru gydnabod hyn yn ffurfiol drwy osod gofynion arnynt i ddarparu rhan o'u cynnwys yn y Gymraeg. Gallai hyn fod drwy raglenni penodol, is-deitlau, neu'n syml drwy ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd mewn cyhoeddiadau dilyniant ac ati.

Nid oes angen i hyn fod yn ddyletswydd feichus a gellir ei wneud yn hollol naturiol. Er enghraifft, pan fydd newyddiadurwyr y BBC yn cynnal cyfweliadau gyda ffigyrau cyhoeddus a'r cyhoedd yng Nghymru, byddant yn aml yn gwneud hynny ddwywaith. Unwaith yn Gymraeg ac unwaith yn Saesneg. Pan fo'r cyfweliad gwreiddiol yn Gymraeg, ac mae'n well gan y cyfwelai ddefnyddio'r Gymraeg, yna gall isdeitlo'r cyfweliad fod yn opsiwn gwell a mwy naturiol na chynnal ail gyfweliad.

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i bob darlledwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ddarparu rhan o'u cynnwys yn y Gymraeg.

[32] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10916/cr-ld10916-w.pdf

# Atodiad A – Sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: **www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15157**

Mae gweddarllediadau ar gael yn: www.senedd.tv

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 2 Mawrth 2017 | Huw Jones, Cadeirydd, Awdurdod S4C<br><br>Ian Jones, Prif Weithredwr<br><br>Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Wales Cymru<br><br>Geraint Evans, Golygydd, Rhaglenni Cymraeg, ITV Cymru Wales |
| 8 Mawrth 2017 | Dr Ruth McElroy, Cyfathrebu, Uned Ymchwil Astudiaethau'r Cyfryngau a Diwylliant, Prifysgol De Cymru<br><br>Huw Marshall, Ymgynghorydd Strategydd Digidol |
| 16 Mawrth 2017 | Iestyn Garlick, Cadeirydd TAC<br><br>Gareth Williams, Aelod Cyngor TAC |
| 30 Mawrth 2017 | Ron Jones, Cadeirydd Gweithredol, Grŵp Tinopolis<br><br>Nia Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr, Boom Cymru<br><br>Simon Curtis, Trefnydd Cenedlaethol a Rhanbarthol - Cymru a De-orllewin Lloegr, Equity<br><br>David Donovan, Swyddog Cenedlaethol Cymru, BECTU Cymru<br><br>Siân Gale, Cadeirydd, Cangen Llawrydd De Cymru, BECTU Cymru<br><br>Hywel William, Aelod o Bwyllgor Cynghori Ofcom dros Gymru<br><br>Glyn Mathias, Aelod o Bwyllgor Cynghori Ofcom dros Gymru |
| 5 Ebrill 2017 | Rhodri Talfan Davies, Pennaeth BBC Cymru Wales<br><br>Siân Gwynedd, Pennaeth Cynhyrchu Cynnwys, BBC Cymru Wales |
| 10 Mai 2017 | Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes<br><br>Paul Kindred, Uwch Ddadansoddwr Polisi |
| 18 Mai 2017 | Huw Jones, Cadeirydd, Awdurdod S4C<br><br>Ian Jones, Prif Weithredwr, S4C |

# Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig

Daeth tystiolaeth i'r pwyllgor drwy gydol yr ymchwiliad. Cynhaliwyd Ymgynghoriad y Pwyllgor o ddydd Llun 6 Chwefror 2017 i ddydd Gwener 3 Mawrth 2017. Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi'u rhestru isod ac maent ar gael yn llawn yn:
**http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=251&RPID=1508876977&cp=yes**

| Cyfeirnod | Sefydliad/Enw |
|---|---|
| FS4C01 | BBC Cymru |
| FS4C02 | Sian Morgan Lloyd a Dr Caitriona Noonan, Prifysgol Caerdydd |
| FS4C03 | Cymdeithas yr Iaith (Cymraeg yn unig) |
| FS4C04 | Equity |
| FS4C05 | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| FS4C06 | JY Comben |
| FS4C07 | Pact |
| FS4C08 | Rondo Media |
| FS4C09 | TAC |
| FS4C10 | Huw Marshall |
| FS4C11 | Tinopolis |
| FS4C12 | Comisiynydd y Gymraeg |